

Polisi Iaith Gymraeg yr RSPB

Ynglŷn â'r RSPB

Gweledigaeth yr RSPB yw byd **lle mae pobl yn byw mewn cytgord â natur**.

Rydym yn sefydliad cadwraeth natur yn y DU gyda thua 1.2 miliwn o aelodau, sydd wedi ymrwmo i greu byd cyfoethocach ei natur. Rydym yn defnyddio ein harbenigedd mewn adar i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r ddau argyfwng, ecolegol a hinsawdd, gan helpu pobl i fyw mewn cytgord â natur. Rydym yn cymryd camau i gadw rhywogaethau cyffredin yn gyffredin, adfer rhywogaethau sydd dan fygythiad, diogelu ac adfer lleoedd arbennig ac ysbrydoli a galluogi pawb i weithredu dros natur. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar bedair gwlad y DU, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor y DU, gan weithio gyda'n partneriaid yn lleol. Rydym hefyd yn gweithio'n fyd-eang, lle bynnag y bo natur a lle bo'r angen, fel partner BirdLife International yn y DU.

Yng Nghymru, lle'r ydym yn cael ein hadnabod fel RSPB Cymru, mae gennym tua 55,000 o aelodau, gan gynnwys 9,000 o bobl ifanc sy'n aelodau. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi tua 170 o staff, gyda'r mwyafrif wedi'u lleoli ym Mhencadlys Cymru yng Nghaerdydd, ein swyddfa yng Ngogledd Cymru ym Mangor, ac yn ein 18 gwarchodfa natur ledled Cymru.

Mae ein gwarchodfeydd yn gartrefi pwysig i fywyd gwyllt a hefyd yn lleoedd gwych i bobl gysylltu â natur. Mae'r rhan fwyaf o'n gwarchodfeydd natur yn croesawu ymwelwyr, gyda'n canolfannau mwyafrif yn darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau fel caffis, siopau, cyfleoedd addysg ffurfiol ac anffurfiol ac ystod eang o weithgareddau i deuluoedd. Mae grwpiau a gwirfoddolwyr lleol yn ein helpu mewn gwahanol ffyrdd ac maent yn rhan allweddol o'n llwyddiant.

Sut mae'r RSPB yn gweithredu

Elusen yw'r RSPB, a sefydlwyd yn 1889, sy'n cael ei llywodraethu gan Gyngor o ymddiriedolwyr gwirfoddol ac a reolir yn unol â Siarter Frenhinol a statudau sydd gyda'i gilydd yn nodi egwyddorion sylfaenol ein trefn lywodraethu. Goruchwylir y gwaith o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol, sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Gwledydd y DU sy'n arwain ein gweithrediadau ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae Cyfarwyddwr RSPB Cymru yn adrodd i Gyfarwyddwr Gweithredol Gwledydd y DU, ac ynghyd â thîm Arweinyddiaeth Cymru, mae'n rheoli holl weithrediadau'r RSPB yng Nghymru, a elwir yn RSPB Cymru.

Dull o ymdrin â'r Gymraeg

Mae'r RSPB wedi gweithio yng Nghymru ers dros 100 mlynedd. Mae ein hymagwedd at y Gymraeg wedi datblygu dros y cyfnod hwn, gan ymateb i amryw o ffactorau, ond yn y pen draw rydym yn cydnabod, er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, bod angen i ni ymgysylltu mewn ffordd gynhwysol â phob un yn ein gwaith a bod y Gymraeg yn hanfodol i'r hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru.

Ar ddechrau'r 2000au, gwnaethom newid sylweddol sylweddol yn ein cynnig iaith Gymraeg a datblygwyd Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â chanllawiau a chyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn 2006 ac mae'n disgrifio'r amcanion a'r egwyddorion yr ymdrechwn weithio tuag atynt o ran ein gweithrediadau dwyieithog.

Mae'r 'Polisi Dwyieithrwydd RSPB' diwygiedig hwn yn adeiladu ar y Cynllun hwnnw ac yn cymryd ei le. Mae'n cryfhau ymhellach ymrwymiad yr RSPB i ddwyieithrwydd ac yn rhoi mwy o eglurder

ynghylch sut y bydd yr RSPB yn gweithredu yng Nghymru ac yn gwasanaethu pobl Cymru gan ddefnyddio'r ddwy iaith.

Mae'r RSPB wedi mabwysiadu'r egwyddor na fydd y Gymraeg, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen Polisi Dwyieithrwydd hon yn rhan o ymrwymiad yr RSPB i gyfathrebu o ansawdd uchel yng Nghymru, ac fe'i datblygwyd i alluogi RSPB Cymru i wneud cynnydd parhaus tuag at ei amcanion.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithrediadau'r RSPB yng Nghymru, holl staff a gwirfoddolwyr RSPB Cymru sy'n gweithio yng Nghymru ac, yn bwysig, i staff RSPB yn y DU sy'n darparu cymorth ar gyfer gwaith neu ddeunyddiau i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Nid oes unrhyw beth yn y cynllun hwn yn gwrthdaro ag amcanion elusennol yr RSPB nac yn tanseilio eu hamcanion.

Hunaniaeth Brand RSPB Cymru:

- 1.1 Cyfeiriwch bob amser at ein gweithrediadau yng Nghymru fel RSPB Cymru, (byth fel RSPB Wales nac fel yr RSPB yng Nghymru).
- 1.2 Mae RSPB Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg o fewn ein hunaniaeth brand.
- 1.3 Bydd testun Cymraeg a Saesneg yn cael yr un amlygrwydd yn y cynllun. Bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben, neu i'r chwith i'r Saesneg fel cynllun diofyn.
- 1.4 Bydd logo dwyieithog yn ymddangos ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddus a deunyddiau ysgrifennu.
- 1.5 Bydd copi Cymraeg yn dilyn canllawiau'r brand a chywair yr iaith ac yn rhannu'r un gwerthoedd brand.
- 1.6 Derbynnir hunaniaeth brand RSPB Cymru fel rhan o bolisi brand cyffredinol yr RSPB

Rhyngweithio â'r cyhoedd:

2. Ateb y ffôn

- 2.1 Bydd galwadau ffôn i brif swyddfeydd RSPB Cymru'n cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog - Cymraeg yn gyntaf, Saesneg yn ail.
- 2.2 Bydd y switsfwrdd a'r peiriant ateb yn cyflwyno'r un neges yn y ddwy iaith; Cymraeg yn gyntaf, Saesneg yn ail.
- 2.3 Bydd yr holl staff a gwirfoddolwyr sy'n ateb y prif linellau ffôn cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hyfforddi i wneud hynny'n ddwyieithog a sut i ynganu lleoedd Cymraeg ac enwau personol yn gywir.

3. Anfon ac ymateb i lythyrau a negeseuon e-bost

- 3.1 Mae RSPB Cymru yn croesawu gohebiaeth yn newis iaith yr anfonwr; Cymraeg neu Saesneg.
- 3.2 Bydd yr holl ohebiaeth ysgrifenedig ac e-bost yn cael ei hateb yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.
- 3.3 Bydd yr holl lythyrau safonol gan RSPB Cymru i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 3.4 Bydd llythyrau, cardiau busnes a slipiau cyfarch yn ddwyieithog.
- 3.5 Bydd llofnodion a throedynnau e-bost yn ddwyieithog, a bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r troednodyn e-bost sy'n nodi bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4. Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.1 Mae croeso i gyfranogwyr mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus a drefnir gan RSPB Cymru gyfrannu yn eu dewis iaith; Cymraeg neu Saesneg.
- 4.2 Bydd unrhyw hysbysiadau o gyfarfodydd cyhoeddus, naill ai mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu drwy unrhyw lwyfan cyfarfod ar-lein (fel Microsoft Teams neu Zoom), a drefnir gan RSPB Cymru, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- 4.3 Mewn cyfarfodydd o 50 neu fwy o bobl, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol hysbysu RSPB Cymru ymlaen llaw o'u dewis iaith. Os bydd yr ymatebion yn dangos bod angen, yna trefnir darpariaeth gyfieithu briodol i sicrhau bod y rhai sy'n mynychu yn gallu cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a bod croeso iddynt wneud hynny.

Rhyngweithio ar y Safle:

5. Arwyddion, Deunydd Hyrwyddo a Dehongli

- 5.1 Bydd yr holl arwyddion i'r cyhoedd, gan gynnwys hysbysiadau dros dro, ar safleoedd RSPB Cymru (gwarchodfeydd ac ardaloedd cyhoeddus mewn swyddfeydd) yn ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd yn cael ei roi i'r ddwy iaith.
- 5.2 Bydd yr holl arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru y mae RSPB Cymru yn gyfrifol amdanynt yn ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd yn cael ei roi i'r ddwy iaith.
- 5.3 Bydd yr holl adnoddau arlwyio a hyrwyddo manwerthu, gan gynnwys bwydleni, ar safleoedd RSPB Cymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd yn cael ei roi i'r ddwy iaith.
- 5.4 Bydd stondinau sioeau ar gyfer digwyddiadau, gan gynnwys stondinau codi arian a recriwtio, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith.
- 5.5 Bydd yr holl faneri a'r byrddau gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith.
- 5.6 Bydd yr holl destun ar flychau rhoi/casglu neu debyg yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith.
- 5.7 Bydd yr holl ddehongliadau ac arddangosfeydd safleoedd, parhaol a dros dro ac yn cynnwys deunyddiau sain neu fideo yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith.
- 5.8 Bydd yr holl frandio neu negeseuon ar wisgoedd staff a gwirfoddolwyr yn ddwyieithog.
- 5.9 Bydd yr holl ysgrifen ar gerbydau'n ddwyieithog.

6. Cyfarfod a Chyfarch

- 6.1 Mae RSPB Cymru wedi ymrwmo i weithio tuag at ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg ar bob un o'i safleoedd.
- 6.2 Bydd yr holl staff a gwirfoddolwyr ar draws y safle cyfan yn cyfarch ac yn diolch yn ddwyieithog i ymwelwyr.
- 6.3 Bydd RSPB Cymru yn arddangos posteri Cymraeg Gwaith mewn man amlwg ac yn annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynnew a laniardau
- 6.4 Bydd yr holl arolygon ymwelwyr yng ngwarchodfeydd RSPB Cymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog

7. Digwyddiadau

- 7.1 Bydd pob gwahoddiad i ddigwyddiadau, a drefnir gan yr RSPB neu drydydd partion ar ran yr RSPB, yn ddwyieithog.
- 7.2 Bydd yr holl ffurflenni cofrestru ac adborth ar gyfer digwyddiadau, a drefnir gan RSPB neu drydydd partion, yn ddwyieithog.

- 7.3 Bydd yr holl becynnau mynychwyr ar gyfer digwyddiadau, a drefnir gan RSPB neu drydydd partiön, yn ddwyieithog.
- 7.4 Bydd yr holl arwyddion, baneri ac arddangosfeydd ar gyfer digwyddiadau, a drefnir gan RSPB neu drydydd partiön, yn ddwyieithog.

Addysg

- 8. Bydd yr holl ddeunyddiau a grëwyd gan RSPB Cymru a Phencadlys RSPB UK, printiedig ac ar-lein, i'w defnyddio mewn ysgolion a gan athrawon, megis nodiadau addysgu a chyfarwyddiadau yn ddwyieithog.
- 8.1 Bydd yr holl sesiynau grŵp addysgol ar warchodfeydd neu mewn ysgolion yn cael eu cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfathrebu a Marchnata

9. Deunyddiau Printiedig

- 9.1 Bydd yr holl ddeunyddiau printiedig, gan gynnwys taflenni, posteri, cyfarwyddiadau, taflenni a mapiau (a gynhyrchir gan RSPB Cymru neu a gynhyrchir gan bencadlys yr RSPB) i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru, yn ddwyieithog.
- 9.2 Yng nghynllun deunyddiau printiedig, rhoddir yr un amlygrwydd i'r testunau Cymraeg a Saesneg.
- 9.3 Pan gyhoeddir dogfen am bris mewn fformat dwyieithog, ni fydd ei phris yn fwy na phris dogfen mewn un iaith.
- 9.4 Bydd cylchlythyr aelodau RSPB Cymru, Y Barcud, yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

10. Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

- 10.1 Bydd yr holl gynnwys marchnata a chyhoeddusrwydd a gynhyrchir i'w ddsbarthu yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.
- 10.2 Bydd hysbysebu yn y wasg ac argraffu bob amser yn cynnwys logo dwyieithog.
- 10.3 Bydd hysbysebu printiedig yng Nghymru yn yr iaith sy'n briodol i'r cyhoeddiad.
- 10.4 Bydd hysbysebu ar-lein a digidol gan RSPB Cymru bob amser yn cynnwys logo dwyieithog a bydd yn yr iaith sy'n briodol i'r cyhoeddiad.
- 10.5 Bydd cyhoeddusrwydd ar y teledu a'r radio, bwletinau a hysbysebu yn cael eu cynhyrchu yn yr iaith sy'n briodol i'r cyfrwng e.e. Cymraeg i BBC Radio Cymru, Saesneg ar gyfer BBC Radio Wales.
- 10.6 Bydd arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- 10.7 Bydd ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yng Nghymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- 10.8 Bydd mecanweithiau ymateb i ymgyrchoedd hybu gwybodaeth, e.e. llinellau gwybodaeth/cymorth yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

11. Y Cyfryngau a'r Wasg

- 11.1 Bydd RSPB Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyfryngau a'r wasg.
- 11.2 Anfonir datganiadau i'r wasg gan ddefnyddio'r iaith briodol i'r sianeli cyfathrebu a dargedir
- 11.3 Bydd RSPB Cymru yn darparu staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg fel llefarwyr y cyfryngau Cymraeg.

12. Gwefan

- 12.1 Bydd adran RSPB Cymru ar wefan yr RSPB yn ddwyieithog.
- 12.2 Mae RSPB Cymru wedi ymrwymo i sicrhau y bydd tudalennau gwarchodfeydd ar gyfer safleoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny'n raddol.
- 12.3 Bydd newidiadau ac ychwanegiadau i dudalennau cartref RSPB Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.

13. Cyfryngau Cymdeithasol

- 13.1 Bydd prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol RSPB Cymru yn ddwyieithog
- 13.2 Mae RSPB Cymru wedi ymrwymo i roi mwy o gynnwys dwyieithog ar gyfrifon gwarchodfeydd, a hynny'n raddol.
- 13.3 Bydd blogiau a grëir yng Nghymru yn ddwyieithog

14. E-newyddlenni, e-weithredu ac e-arolygon

- 14.1 Bydd cylchlythyrau electronig, e-weithredu ac arolygon gan RSPB Cymru yn cael eu hanfon allan yn ddwyieithog.

15. Fideos, ffeithluniau a deunyddiau sain

- 13.1 Bydd fideos, ffeithluniau a deunyddiau sain gan RSPB Cymru yn ddwyieithog. Os nad yw'r cyfweleion, neu lefarwyr mewn fideos yn gallu darparu cynnwys yn y ddwy iaith, gellir defnyddio isdeitlau.

16. Cynnwys ac ymgyrchoedd a gynhyrchir yn ganolog gan Bencadlys yr RSPB

- 16.1 Bydd yr holl gyfathrebu, ymgyrchoedd, deunyddiau marchnata a chynnwys cysylltiedig a gynhyrchir yn ganolog (e.e. teitlau cyfryngau cymdeithasol, fideos, ffeithluniau ac ati) i'w dosbarthu yng Nghymru, a ddefnyddir ar wefan neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol RSPB Cymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
- 16.2 Bydd deunyddiau dwyieithog a gynhyrchir yn ganolog yn cael eu cyhoeddi neu eu dosbarthu ar yr un pryd â deunyddiau Saesneg yn unig.
- 16.3 Bydd yr holl ddeunyddiau dwyieithog a gynhyrchir neu a gafaelwyd yn ganolog yn cael eu darparu i dîm RSPB Cymru i'w prawf ddarllen o fewn amserlen resymol.
- 16.4 Bydd yr holl hysbysebion digidol a gynhyrchir neu a gafaelir yn ganolog ac sy'n ymddangos yng Nghymru yn cynnwys y logo dwyieithog, ac os caiff hysbysebion eu prynu ar gyfer Cymru, byddant yn ddwyieithog.
- 16.5 Bydd y rhan o Adroddiad Blynyddol yr RSPB yn y DU sy'n ymwneud â Chymru yn ddwyieithog.
- 16.6 Wrth ddatblygu deunyddiau a chyhoeddiadau newydd, bydd y tîm comisiynu yn ystyried gofynion dwyieithog yn y cynnig prosiect a'r cam cynllunio, fel bod costau, gwaith cynllunio ac amserlenni ar gyfer cynnwys dwyieithog yn cael eu cynnwys yn briodol.

17. Ariannu Cynnwys a Deunydd Dwyieithog

- 17.1 Bydd y gost o gynhyrchu cynnwys dwyieithog a gynhyrchir gan RSPB Cymru yn cael ei gynnwys yng nghyllidebau Cymru.
- 17.2 Bydd costau copïo neu gyfieithu a dylunio dwyieithog yn Gymraeg ar gyfer swyddogaethau pencadlys a chyfathrebu, ymgyrchoedd, marchnata a phrosiectau

- canolog yn cael eu talu gan y gyfarwyddiaeth neu'r bwrdd portffolio perthnasol sy'n gyfrifol am gomisiynu'r deunyddiau neu'r prosiect.
- 17.3 Bydd costau ysgrifennu, copïo neu gyfieithu a dylunio dwyieithog yn Gymraeg ar gyfer cyfathrebu, ymgyrchoedd, marchnata a phrosiectau canolog yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau ar y dechrau fel rhan o'r gwaith o gynllunio'r prosiect.

Datblygu'r Gweithlu

18. Recriwtio Staff a Gwirfoddolwyr

- 18.1 Gan ddefnyddio Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg bydd asesiad o'r lefelau sgiliau Cymraeg perthnasol ar gyfer pob swydd yn cael ei wneud cyn recriwtio ar gyfer unrhyw swydd wag.
- 18.2 Fel rhan o'r broses recriwtio bydd yn rhaid i ymgeiswyr ar gyfer pob rôl gwblhau matrices iaith i ddangos eu lefelau presennol o sgiliau gwrando a deall, Siarad a Darllen Cymraeg.
- 18.3 Bydd swyddi gwag ar gyfer staff a gwirfoddolwyr yn nodi'n glir y lefel sgiliau iaith sydd ei hangen.
- 18.4 Byddwn yn hysbysebu'n ddwyieithog fel mater o drefn ond gellir hysbysebu swyddi yn Saesneg yn unig os nad oes gofyn am unrhyw sgiliau Cymraeg yn seiliedig ar asesiad Fframwaith Cymwyseddau'r Gymraeg. Yn yr un modd, os yw swydd yn gofyn am lefel uchel o sgiliau Gymraeg, mae'n bosibl mai yn y cyfryngau Cymraeg yn unig y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu.
- 18.5 Mae RSPB Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau newydd o recriwtio gwirfoddolwyr i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u rôl.
- 18.6 Bydd holl staff a gwirfoddolwyr RSPB Cymru sydd â chyfrifoldeb rheoli llinell yn cael eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio Fframwaith Cymwyseddau'r Gymraeg a Matrics Iaith

19. Rhoi gwybod i'r gweithlu am ein gwasanaethau Cymraeg

- 19.1 Bydd yr RSPB yn rhoi gwybod i staff a gwirfoddolwyr am ei wasanaethau a'i ymrwymadau iaith Gymraeg yn y cyfnod ymsefydlu ffurfiol.
- 19.2 Bydd RSPB Cymru yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith i gydweithwyr ym Mhencadlys y DU
- 19.3 Bydd RSPB Cymru yn creu modiwlau hyfforddi pwrpasol sydd ar gael i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr trwy lwyfan iLearn ar fewnwyd y gymdeithas gyfan

20. Dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

- 20.1 I'r staff hynny mewn swyddi lle mae'r cymhwysedd iaith gofynnol yn uwch na'u lefel bresennol, caiff hyfforddiant ei nodi, gyda chostau'n cael eu talu gan yr RSPB ac amser yn cael ei neilltuo i gwblhau'r hyfforddiant.
- 20.2 Bydd RSPB Cymru yn annog staff a gwirfoddolwyr i ddefnyddio adnoddau fel Cysill a all eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Gweithio gyda Chontractwyr a Phartneriaid

21. Bydd RSPB Cymru yn hysbysu unrhyw gontractwyr neu bartneriaid ein bod wedi ymrwymo i Gynllun Hyrwyddo Comisiynydd y Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.
- 21.1 Bydd asesiad o anghenion y Gymraeg ar gyfer unrhyw brosiect, partneriaeth neu fenter newydd yn cael ei wneud ar y dechrau a chyn i unrhyw waith ddechrau.

Atebolrwydd a Monitro

22. Fel rhan annatod o frand yr RSPB, Cyfarwyddwr Gweithredol Codi Arian a Chyfathrebu ar lefel Bwrdd sydd ag atebolrwydd cyffredinol am y polisi dwyieithog. Mae'r cyfrifoldeb dros gyflawni camau gweithredu o fewn y polisi hwn wedi'i ddirprwyo i Uwch Arweinwyr priodol y swyddogaethau perthnasol.
- 22.1 Bydd Pennaeth Codi Arian a Chyfathrebu RSPB Cymru yn gyfrifol am fonitro'r modd y cyflawnir y Polisi Dwyieithrwydd hwn.
- 22.2 Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol gan Dîm Arweinyddiaeth Cymru, y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Codi Arian a Chyfathrebu, ei Fwrdd Portffolio Cyfathrebu, a Phwyllgor Ymgynghorol Cymru RSPB Cymru gydag argymhellion a chamau gweithredu yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor yr Ymddiriedolwyr fel y bo'n briodol.

RSPB Welsh Language Policy

About the RSPB

The RSPB's vision is for **a world where people live in harmony with nature.**

We are a UK-based nature conservation organisation with c 1.2million members, dedicated to creating a world richer in nature. We use our expertise in birds to provide evidence-based solutions to the twin ecological and climate crises, helping people live in harmony with nature. We take action to keep common species common, recover threatened species, protect and restore special places and inspire and enable everyone to act for nature. Our work is focussed in the four countries of the UK, the Crown Dependencies and the UK Overseas Territories, working with our partners locally. We also work globally, wherever our shared nature goes and the need exists, as the UK partner of BirdLife International.

In Wales, where we are known as RSPB Cymru, we have approximately 55,000 members, including 9,000 youth members. We currently employ c170 staff, with the majority based in our Wales Headquarters in Cardiff, our North Wales office in Bangor, and at our 18 nature reserves across Wales.

Our reserves are important homes for wildlife and also great places for people to connect to nature. The majority of our nature reserves welcome visitors, with our larger centres providing a wide range of facilities such as cafes, shops, formal and informal education opportunities and a wide range of family activities. Local groups and volunteers help us in a variety of ways and are a key part of our success story.

How the RSPB operates

The RSPB is a charity, established in 1889, which is governed by a Council of volunteer trustees and managed in accordance with a Royal Charter and statutes which together set out the fundamental principles of our governance. The day to day running of the organisation is overseen by the Chief Executive and the Executive Management Board, which includes a UK Countries Director leading our operations in the four countries of the United Kingdom. The RSPB Cymru Director reports to the UK Countries Executive Director, and along with the Wales Leadership team, manages all of the RSPB's operations in Wales, which are known as RSPB Cymru.

Approach to the Welsh language

The RSPB has worked in Wales for over 100 years. Our approach to the Welsh language has evolved over this time, responding to a range of drivers, but ultimately we recognise that to our achieve our mission we need to be inclusively engaging all people in our cause and that the Welsh language is essential to our relevance in Wales.

In the early 2000s, we made a significant step change in our Welsh language offer and a Welsh Language Scheme was developed in accordance with guidelines and advice from the Welsh Language Board. This Scheme was approved by the Executive Board and Council in 2006 and it described the objectives and principles that we endeavoured to work towards in terms of our bilingual operations.

This revised 'RSPB Bilingual Policy' builds on and replaces that Scheme. It further strengthens the RSPB's commitment to bilingualism and brings greater clarity to how the RSPB will operate in Wales and serve the people of Wales using both languages.

The RSPB has adopted the principle that, in the conduct of public business in Wales, the Welsh language will be treated no less favourably than the English language. This Bilingual Policy document forms part of the RSPB's commitment to high quality communications within Wales, and has been developed to enable RSPB Cymru to make sustained progress towards its objectives.

This policy applies to the RSPB's operations in Wales, all RSPB Cymru staff and volunteers who work in Wales and, importantly, to those RSPB UK staff who provide support for work or materials for audiences in Wales. Nothing in this scheme conflicts with, or compromises the RSPB's charitable objectives.

RSPB Cymru Brand Identity:

- 22.3 Always refer to our operations in Wales as RSPB Cymru, (never RSPB Wales or the RSPB in Wales).
- 22.4 RSPB Cymru is fully committed to an equal status for Welsh and English within our brand identity.
- 22.5 Welsh and English text will be given equal prominence in the layout. The Welsh language will appear above, or to the left of the English language as a default layout.
- 22.6 A bilingual logo will appear on all public materials and stationery.
- 22.7 Welsh copy will follow the brand guidelines on tone of voice and share the same brand values.
- 22.8 The RSPB Cymru brand identity is accepted as part of the RSPB's overall brand policy

Public interaction:

23. Answering the phone

- 23.1 Telephone calls to RSPB Cymru main offices will be answered with a bilingual greeting - Welsh first, English second.
- 23.2 Switchboard and answer phone messages will carry the same message in both languages; Welsh first, English second.
- 23.3 All staff and volunteers who answer the main public phone lines in Wales will be trained in bilingual greetings and how to pronounce Welsh place and personal names correctly.

24. Sending and replying to letters and e-mails

- 24.1 RSPB Cymru welcomes correspondence in the language of choice; Welsh or English.
- 24.2 All written and email correspondence will be answered in the language of the original correspondence.
- 24.3 All standard letters issued by RSPB Cymru to the public in Wales will be bilingual.
- 24.4 Letterheads, business cards, and compliments slips will be bilingual.
- 24.5 E-mail signatures and footers will be bilingual, and Welsh speaking staff will use the e-mail footnote which notes that correspondence is welcomed in Welsh and English.

25. Public Meetings

- 25.1 Participants at any public meeting organised by RSPB Cymru are welcome to contribute in the language of their choice; Welsh or English.
- 25.2 Any notices of public meetings, either in person meetings or via any online meeting platform (such as Microsoft Teams or Zoom), organised by RSPB Cymru will be issued bilingually.
- 25.3 At meetings of 50 or more people, attendees will be asked to inform the RSPB Cymru in advance of their preferred language. Should the responses show the need, then appropriate translation provision will be provided to ensure that those attending are able and welcome to contribute through the medium of Welsh and English.

On Site Interaction:

26. Signage, Promotional Material and Interpretation

- 26.1 All public facing signage, including temporary notices, on RSPB Cymru sites (reserves and public areas of offices) will be bilingual with equal prominence given to both languages.
- 26.2 All public information signs located in Wales for which RSPB Cymru has responsibility will be bilingual with equal prominence given to both languages.
- 26.3 All catering and retail promotional resources, including menus, on RSPB Cymru sites will be produced bilingually with equal prominence given to both languages.
- 26.4 Show stands for events, including fundraising and recruitment stands will be produced bilingually with equal prominence to both languages.
- 26.5 All banners and pop-ups, will be produced bilingually with equal prominence to both languages.
- 26.6 All text on donation/collection boxes or similar will be produced bilingually with equal prominence to both languages.
- 26.7 All site interpretation and exhibitions, both permanent and temporary and including audio or video guides will be produced bilingually with equal prominence to both languages.
- 26.8 All branding or messaging on staff and volunteer uniforms will be bilingual.
- 26.9 All vehicle livery will be bilingual.

27. Meeting & Greeting

- 27.1 RSPB Cymru is committed to working towards providing an equally high standard of service in both Welsh and English at all its sites.
- 27.2 All staff and volunteers across the whole site will greet and thank visitors bilingually.
- 27.3 RSPB Cymru will display Working Welsh posters prominently and encourage Welsh speaking staff to wear badges and lanyards
- 27.4 All visitor surveys at RSPB Cymru reserves will be conducted bilingually

28. Events

- 28.1 All invitations to events, organised by RSPB or third parties on RSPB's behalf, will be bilingual.
- 28.2 All registration and feedback forms for events, organised by RSPB or third parties, will be bilingual.
- 28.3 All attendee packs for events, organised by RSPB or third parties, will be bilingual.
- 28.4 All signage, banners and displays for events, organised by RSPB or third parties, will be bilingual.

Education

- 29. All materials created by RSPB Cymru and RSPB UK HQ, both printed and online, for use in schools and by teachers, such as teaching notes and guidelines will be bilingual.
- 29.1 All educational group sessions on reserves or in schools will be offered in both Welsh and English.

Communications and Marketing

30. Printed Materials

- 30.1 All printed materials, including leaflets, posters, guides, flyers and maps (produced by RSPB Cymru or produced by RSPB HQ) for use by the general public in Wales, will be bilingual.
- 30.2 In the layout of printed materials, the Welsh and English texts will be given equal prominence.
- 30.3 When a priced document is issued in a bilingual format its price will not be greater than a single language version of that document.
- 30.4 The RSPB Cymru members newsletter, Y Barcud, will be produced bilingually.

31. Advertising & Publicity

- 31.1 All marketing and publicity content produced for distribution in Wales, will be produced bilingually.
- 31.2 Press and print advertising will always include a bilingual logo.
- 31.3 Print advertising in Wales will be in the language appropriate to the publication.
- 31.4 Online and digital advertising originated by RSPB Cymru will always include a bilingual logo and be in the language appropriate to the publication.
- 31.5 TV and radio publicity, bulletins and advertising will be produced in the language appropriate to the medium e.g. Welsh for BBC Radio Cymru, English for BBC Radio Wales.
- 31.6 Public surveys in Wales will be undertaken bilingually.
- 31.7 Direct marketing campaigns in Wales will be conducted bilingually.
- 31.8 Response mechanisms to information promotion campaigns, e.g. information/help lines in Wales will be in Welsh and English.

32. Media & Press

- 32.1 RSPB Cymru will offer a bilingual service to the media and press.
- 32.2 Media releases will be sent using the appropriate language to the communications channels targeted
- 32.3 RSPB Cymru will provide Welsh speaking staff and volunteers as spokespeople for Welsh language media.

33. Website

- 33.1 The RSPB Cymru section of the RSPB website will be bilingual.
- 33.2 RSPB Cymru is committed to ensuring reserve webpages for sites in Wales will be bilingual following a phased approach.
- 33.3 English and Welsh language amends and additions to the RSPB Cymru home pages will be published at the same time.

34. Social Media

- 34.1 The RSPB Cymru main social media accounts will be bilingual
- 34.2 RSPB Cymru is committed to increasing the amount of bilingual content from its individual reserve accounts following a phased approach.
- 34.3 Blogs created in Wales will be bilingual

35. E-newsletters, e-actions & e-surveys

- 35.1 Electronic newsletters, e-actions and surveys originated by RSPB Cymru will be sent out bilingually.

36. Videos, infographics & audio guides

- 13.1 Videos, infographics, and audio guides originated by RSPB Cymru will be bilingual. If the interviewees, or spokespeople in videos are not able to provide content in both languages, subtitles may be used.

37. RSPB HQ Centrally produced content and campaigns

- 37.1 All centrally produced communication, campaigns, marketing materials and associated content (e.g social media tiles, videos, infographics etc) for distribution in Wales, used on the RSPB Cymru website or social media accounts will be produced bilingually.
- 37.2 Centrally produced bilingual materials will be published or distributed at the same time as English only materials.
- 37.3 All centrally produced or procured bilingual materials will be provided to the RSPB Cymru team for proofing in a reasonable timescale.
- 37.4 All centrally produced or procured digital advertising which appears in Wales will carry the bilingual logo and where adverts are geographically purchased will be bilingual.
- 37.5 The section of the RSPB's UK Annual Report relating to Wales will be bilingual.
- 37.6 In the development of new materials and publications, the commissioning team will give consideration to bilingual requirements at the project proposal and planning stage, such that costs, creatives and timescales for bilingual content are appropriately included.

38. Funding Bilingual Content and Material

- 38.1 The cost of producing bilingual content generated by RSPB Cymru will be accounted for in our Wales budgets.
- 38.2 The cost of Welsh language copywriting or translation and bilingual design for HQ functions and centrally-led communications, campaigns, marketing and projects will be accounted for in the relevant directorate or portfolio board responsible for the commissioning of the materials or project.
- 38.3 The cost of Welsh language copywriting or translation and bilingual design for centrally-led communications, campaigns, marketing and projects will be factored into the budgets at the outset as part of the project planning.

Workforce Development

39. Recruiting Staff and Volunteers

- 39.1 Using a Welsh Language Competency Framework an assessment of the relevant Welsh language skill levels for each post will be made prior to recruiting for any vacancy.
- 39.2 As part of the recruitment process candidates for every role will have to complete a language matrix to indicate their current levels of skill in listening and understanding, Speaking and Reading Welsh.
- 39.3 Vacancies for staff and volunteers will clearly indicate the language skill level required.
- 39.4 We will advertise bilingually as a default but posts may be advertised in English alone if there is no requirement for any Welsh language skill based on the Welsh Language Competency Framework assessment. Similarly, if posts require the highest skill level of Welsh as an essential requirement, posts may only be advertised in the Welsh language media.
- 39.5 RSPB Cymru is committed to developing new methods of recruiting volunteers to increase the number of volunteers who are able to use Welsh as part of their role.
- 39.6 All RSPB Cymru staff and volunteers with line management responsibility will be trained in how to use the Welsh Language Competency Framework and Language Matrix

40. Informing the workforce about our Welsh language services

- 40.1 The RSPB will inform staff and volunteers about its Welsh language services and commitments in the formal induction.
- 40.2 RSPB Cymru will provide language awareness sessions to UK HQ colleagues
- 40.3 RSPB Cymru will create bespoke training modules available to all staff and volunteers that will be hosted by the iLearn platform on the society wide intranet

41. Learning & using the Welsh language at work

- 41.1 For those staff in posts where the required language competency is above their current level, training will be identified, with costs covered by the RSPB and time to complete the training provided.
- 41.2 RSPB Cymru will encourage staff and volunteers to use resources such as Cysill which can help them to use Welsh in the workplace.

Working with Contractors and Partners

- 42. RSPB Cymru will inform any contractors or partners that we have committed to the Welsh Language Commissioner's Promotion Scheme and to providing Welsh language services.
- 21.1 An assessment of the Welsh language needs for any new project, partnership or initiative will be made at the outset and before any work commences.

Accountability and Monitoring

43. As an integral part of the RSPB brand overall accountability for this Bilingual Policy sits with the Board level Executive Director for Fundraising and Communications. The responsibility for the delivery of actions within this policy are delegated to the appropriate Senior Leaders of the relevant functions.
- 43.1 The RSPB Cymru Head of Fundraising & Communications will assume responsibility for monitoring the delivery of this Bilingual Policy.
- 43.2 This Policy will be reviewed annually by the Wales Leadership Team, The Executive Director for Fundraising and Communications, its Communications Portfolio Board, and the Advisory Committee for Wales of RSPB Cymru with recommendations and actions shared with The Executive Board and the Council of Trustees as appropriate.